



## **ADDENDUM I BOLISI CYFREDOL YMDDYGIAD YR YSGOL AR GYFER 29 MEHEFIN– 17 GORFFENNAF 2020**

### **YSGOL GYFUN PENWEDDIG – Cod Ymddygiad a Disgwyliadau Covid19**

#### **Cyflwyniad**

Bydd ysgolion yn ailagor ar 29 Mehefin, ac yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym wedi adolygu ein polisi ymddygiad i ddiwallu anghenion pob disgybl.

Rhaid i bob ysgol gadw at ganllawiau llym a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ynghyd â chanllawiau Iechyd a Diogelwch gan ALI Ceredigion.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael mynediad at addysg gynhwysol o fewn amgylchedd dysgu diogel.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu tri nod y ddyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i Gydraddoldeb, ar draws pob sefydliad:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin cysylltiadau da ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig - rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Yn benodol, dylid rhoi sylw dyledus ym mywyd y sefydliad er mwyn

1. Dileu neu leihau anfanteision
2. Cymryd camau rhesymol i ddiwallu gwahanol anghenion
3. Annog cyfranogiad os yw'n anghymesur o isel.

Wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, mae angen i ni sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal. Bydd angen i ysgolion wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion unigol disgyblion, gan roi cymorth iddynt allu integreiddio'n raddol i amgylchedd dysgu anghyfarwydd.

## **Fel ysgol**

- Rydym yn cydnabod bod dychwelyd ar ôl amser mor hir gartref yn achosi set unigryw a heriol o amgylchiadau.
- Rydym yn derbyn y bydd myfyrwyr yn cymryd amser i setlo a sefydlu eu hunain mewn trefn arferol ac y bydd yn teimlo'n rhyfedd iddynt fod yn ôl yn yr ysgol yn y Brifysgol.
- Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn teimlo'n bryderus neu'n nerfus ynghylch dychwelyd i'r ysgol ac felly bydd gofal bugeiliol a chefnogaeth ychwanegol ar gael.
- Fel ysgol, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau diogelwch holl aelodau ein cymuned, felly byddwn yn gweithredu'r cod ymddygiad canlynol.

**Trwy anfon eich plentyn i'r ysgol, rydym yn cymryd eich bod yn cytuno â'r cod ymddygiad a'r disgwyliadau wrth ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn Covid 19**

## COD YMDDYGIAD A DISGWYLIADAU YSGOL GYFUN PENWEDDIG YN DILYN COVID 19

Yn unol â chyingor Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd disgwyl i bob disgybl ddilyn y canllawiau a'r disgwyliadau isod. Disgwylir i bob rhiant a gwarcheidwad ddarllen a llofnodi'r ddogfen hon cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol.

### Ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol

- Bydd disgyblion yn caniatáu i rywun gymryd eu tymheredd wrth iddynt gyrraedd. Bydd methu â chymryd rhan yn hyn yn golygu na fydd disgyblion yn cael mynediad.
- Anfonir disgyblion adref os yw eu tymheredd yn uwch na 37.5°C.
- Bydd pob aelod o gymuned Ysgol Gyfun Penweddig yn cadw at y canllawiau pellhau cymdeithasol 2 fetr **bob amser**.
- Bydd staff a disgyblion yn cymryd pob gofal i leihau'r risg o drosglwyddo firws trwy olchi dwylo'n rheolaidd, defnyddio glanweithydd dwylo, cadw'r ardaloedd gwaith yn lân a defnyddio'r deunyddiau glanhau a ddarperir.
- Bydd pob aelod o gymuned Ysgol Gyfun Penweddig yn golchi dwylo gyda sebon a dŵr poeth yn rheolaidd am o leiaf 20 eiliad neu lanweithydd os nad oes dŵr o'r tap ar gael:
  - pan yn cyrraedd y safle
  - cyn ac ar ôl egwyl
  - cyn bwyta
  - cyn mynd nôl i'r ystafell ddosbarth
  - ar ôl defnyddio'r tŷ bach
  - cyn gadael y safle
- 'Ei ddal, Ei Finio, Ei Ladd' ar ôl pesychu neu disian – pesychu/tisian i benelin pan nad oes hances bapur ar gael. Dylid rhoi hancesi papur mewn bin ac yna dylid golchi dwylo yn syth wedyn.
- Mae'n hollbwysig bod disgyblion yn dod i'r ysgol gyda'r holl gyfarpar angenrheidiol fel eu bod yn barod i ddysgu. Bydd angen i'ch plentyn ddod â :
  - Phecyn bwyd (yn cynnwys pecyn iâ )
  - Potel dŵr mawr eu hunain wedi ei labelu gydag enw'r disgybl
  - Châs pensiliau i'r ysgol
  - Phapur ysgrifennu
  - Gliniadur/ Tabled/ Ffôn wedi'i wefru'n llawn

- Eli Haul
- Het Haul
- Cot yn y bag

O hyn ymlaen, ni fydd yn ymarferol benthyg offer gan ffrindiau ac ni fydd yr ysgol yn gallu darparu offer.

- Rhaid i ddisgyblion aros o fewn ‘swigen’ y dosbarth y maent wedi’i roi ynddo a **rhaid iddynt beidio** â rhyngweithio â disgyblion o ‘swigen’ arall.
- Bydd pob egwyl ac amser cinio yn digwydd ar adegau gwahanol a rhaid i ddisgyblion gadw at yr amserlen heb eithriad a **chymdeithasu â disgyblion o ‘swigen’ eu dosbarth yn unig.**
- Os yw disgybl yn teimlo’n sâl, rhaid iddo roi gwybod i aelod o staff **ar unwaith.**
- Bydd unrhyw ddisgyblion sy’n arddangos symptomau'r firws yn cael eu hynysu yn yr “ystafelloedd ynysu” a chysylltir â rhieni i’w casglu cyn gynted â phosibl.
- Gofynnir i unrhyw aelod o staff sy’n arddangos symptomau'r firws adael y safle a dilyn canllawiau ynghylch hunan-ynysu.

**Ni fydd yr ysgol yn goddef ymddygiad sy'n tanseilio'n fwriadol y mesurau diogelwch y mae wedi'u rhoi ar waith neu'n peryglu diogelwch disgyblion neu staff. Byddant yn cael eu trin fel digwyddiadau ymddygiadol lefel uchel. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni.**

Disgwylir i ddisgyblion barhau i ddilyn Polisi Ymddygiad yr ysgol. Yn ogystal â hyn, o ystyried y canllawiau uchod a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, **ni ddylai disgyblion:**

- Gwneud ymdrech ymwybodol i fod o fewn 2m i berson arall, dilyn aelod o staff neu berson ifanc arall yn agos, cysylltu’n gorfforol â pherson ifanc arall (cyffwrdd, gwthio, ysgwyd llaw, cofleidio ac ati), dangos pethau ar ffôn symudol
- Anwybyddu’n fwriadol y mesurau pellhau cymdeithasol a roddwyd ar waith gan yr ysgol
- Rhannu adnoddau/offer

- Tisian/pesychu/poeri yn fwriadol neu esgus tisian/pesychu/poeri ar ddisgybl arall neu aelod o staff
- Ymddwyn neu ddefnyddio iaith y bwriedir iddi achosi braw neu ofid i ddisgyblion/staff ynghylch y sefyllfa bresennol
- Anwybyddu canllawiau hylendid sylfaenol a gwrthod golchi dwylo wrth gyrraedd, gadael ac yn rheolaidd yn ystod y dydd
- Rhannu ffonau symudol neu unrhyw eitemau personol eraill tra ar safle'r ysgol
- Gadael safle'r ysgol ar unrhyw adeg (gan gynnwys amser egwyl) ar eu pennau eu hunain, neu fel rhan o grŵp, am unrhyw reswm
- Cerdded i ffwrdd oddi wrth aelod o staff
- Defnyddio iaith neu ymddygiad bygythiol, ymosodol tuag at staff/disgyblion.

## Gwisg ysgol

Am resymau hylendid, rydym wedi llacio rheolau ysgol ar wisg dros dro. Gofynnwn i'n disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol yn ystod wythnosau olaf tymor yr haf wisgo dillad smart ac ymarferol, fel a ganlyn:

- Crys polo ysgol **neu** siwmpwr ysgol neu grys rygbi ysgol neu grys AGorff ysgol (rhaid i logo'r ysgol fod ar yr eitem ddillad)
- Trowsus **neu** sgert **neu** siorts smart ac ymarferol
- Esgidiau ymarferol - caniateir *trainers* ond dim fflip-fflops, sandalau, sodlau uchel (rhaid gorchuddio traed disgyblion)
- Chweched dosbarth – gweler uchod ond yn gwisgo swimper y 6ed neu neu grys wen
- Dylid golchi dillad ar ôl pob diwrnod ysgol.
- Gall myfyrwyr wisgo masgiau neu orchuddion wyneb priodol os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, ni fydd yr ysgol yn gallu darparu masgiau na gorchuddion wyneb.
- **Ni ddylid gwisgo gemwaith.** Dylid tynnu holl emwaith gan gynnwys mwclis a modrwyau ac **ni chaniateir** farnais ewinedd nac ewinedd ffug.

## Ffonau Symudol

Mae'r rheolau ar ffonau symudol wedi newid wrth fynychu'r ysgol ar safle'r Brifysgol. Rhoddir caniatâd i ffonau gael eu defnyddio YN UNIG ar gyfer

- rhesymau addysgol
- cyrchu gwaith ar Show My Homework yn ystod gwersi.

Ni ddylid gweld na chlywed ffonau ar goridorau nac yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Rhaid diffodd holl sain ffonau yn ystod gwersi.

Ni ddylai disgyblion wneud unrhyw alwadau ffôn na anfon neges destun at eraill yn yr ysgol.

**Gwaherddir** tynnu lluniau neu ffilmio disgyblion ac athrawon.

**Ni fydd yr ysgol yn goddef y math hwn o ymddygiad a byddant yn cael eu trin fel digwyddiad ymddygiadol lefel uchel. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni.**

## **Cyrraedd a Gadael Safle'r Ysgol**

- Rhoddir cyfarwyddiadau i ddisgyblion ynghylch pa fynedfeydd y gallant eu defnyddio neu beidio.
- Bydd angen i ddisgyblion ddilyn y system unffordd a roddir ar waith a defnyddio'r mynedfeydd a'r allanfeydd cywir **bob amser**.
- Rhaid i ddisgyblion adael safle'r ysgol cyn gynted â phosibl ac ni chaniateir iddynt aros am ffrindiau.

## **Toiledau**

- Rhaid i ddisgyblion ddefnyddio'r toiledau sydd wedi'u neilltuo i'w 'dosbarth' yn unig.
- Dim ond un disgybl ar y tro fydd yn gallu mynd i mewn i'r bloc toiledau.
- Rhaid i ddisgyblion olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled.

Bydd angen cyfathrebu cryf rhwng rhieni/gwarcheidwaid a'r ysgol. Os na fydd disgybl yn cadw at y disgwyliadau uchod, bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni i drafod y prosesau a'u pwysigrwydd gyda'r disgybl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau addasiadau rhesymol i gefnogi anghenion dysgu'r unigolion, (er enghraifft addasu'r amgylchedd dysgu, adolygu lefel y gefnogaeth, adolygu gweithgareddau). Fodd bynnag, os yw disgybl yn methu cadw at y disgwyliadau uchod yn fwriadol ac yn barhaus, gall yr ysgol, yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol, osod **gwaharddiad tymor pendant**

Mehefin 2020